Rhif: **WG23315**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad

# Rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: **Mehefin 2015**

OGL ISBN digidol 978 1 4734 3489 9
© Hawlfraint y Goron 2015

# Rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Crynodeb o'r Ymgynghoriad

**Cynnwys** **Tudalen**


**Adran 1**

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Digwyddiadau Ymgynghori** | **4** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Y Dystiolaeth ar gyfer Newid** | **6** |
| **Y Cynigion ar gyfer Ymgynghori Arnynt** | **7** |

**Adran 2**

| | |
|---|---|
| **Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad** | **8** |
| **Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** | **8** |
| **Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr** | **26** |

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O'r dechrau, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i weithio gyda phobl i helpu i lunio'r is-ddeddfwriaeth a'r gweithredu ac i gyflawni'r newid ymarfer a diwylliant sy'n cael ei ysgogi drwy'r Ddeddf. Roedd yr ymrwymiad hwn yn sail i broses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr. Cafodd y Panel Cynghori ar Ddiogelu ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2013 i roi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar gryfhau'r trefniadau diogelu i oedolion a phlant yng Nghymru. Mae wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i ddatblygu'r cyfarwyddiadau polisi, y rheoliadau a'r canllawiau statudol sy'n ofynnol i weithredu Rhan 7 o'r Ddeddf.

I ddechrau, defnyddiodd y Panel Cynghori ar Ddiogelu grwpiau gorchwyl a gorffen ym mis Medi 2013 i ystyried cynnwys Rhan 7 o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau allweddol ar y trefniadau diogelu.

Cafodd y grwpiau gorchwyl a gorffen hyn eu hategu gan gyfarfodydd unigol â rhanddeiliaid allweddol o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, er enghraifft Fforwm Gofal Cymru a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru. Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol gyda rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2013 i adlewyrchu'r farn sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal â chyfarfod â gweithwyr proffesiynol, aeth aelodau panel i gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal gan Fyrddau Diogelu Iau, sefydliad Pobl yn Gyntaf a phobl hŷn.

Gwnaeth gweithgarwch ymgysylltu'r Panel barhau tan haf 2014. Yn ystod y cyfnod hwn parhaodd y Panel i gysylltu â rhanddeiliaid gan godi ymwybyddiaeth o weithredu'r Ddeddf a'i pherthnasedd a cheisiwyd barn fwy penodol ar y manylion sy'n ofynnol ar gyfer cynhwysiant mewn Rheoliadau a Chanllawiau Statudol gan ddefnyddio grwpiau ffocws penodol. Manteisiodd aelodau'r panel ar y cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o’r Ddeddf, gan gynnwys sut y byddai'r ddeddfwriaeth amddiffyn oedolion yn gweithio a sut y gellid cryfhau trefniadau diogelu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf, ar ddiogelu. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015.

Yn ogystal ag ymgynghori ffurfiol, gan ddefnyddio fformatau amrywiol, rhoddodd swyddogion gyflwyniadau i grwpiau, cynhaliwyd trafodaethau, aethpwyd i gyfarfodydd un i un, anogwyd pobl i'w gwahodd i'w cyfarfodydd presennol, ac ysgrifennwyd erthyglau a'u rhoi i'n partneriaid i'w defnyddio yn eu rhwydweithiau. Gofynnwyd i randdeiliaid rannu gwybodaeth â'u rhwydweithiau a bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Gofynnwyd i'r Panel Cenedlaethol Dinasyddion ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yr ymgynghoriad fel unigolion o fewn eu rhwydweithiau eu hunain, ond hefyd gyda'i gilydd fel Panel, lle gwnaethant lunio adroddiadau i lywio'r ymgynghoriad ar integreiddio, diogelu, taliadau uniongyrchol a thalu am ofal.

Yn ogystal ag annog cysylltiadau allweddol i ledaenu'r dogfennau ymgynghori ymhlith eu rhwydweithiau, i gynorthwyo ymgysylltu ehangach cafodd fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn hwylus i blant a phobl ifanc eu llunio a'u lledaenu hefyd

Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ehangach drwy dudalennau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru, cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu i grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- Cadeiryddion Byrddau Diogelu yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynrychiolwyr Llywodraeth Leol
- Sefydliadau'r Trydydd Sector
- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Gofal Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Fforwm Gofal Cymru

## Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad;
- darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r meysydd roeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol i gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 26 Tachwedd yn Stadiwm Liberty, Abertawe  Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 9 Rhagfyr yn Venue Cymru, Llandudno.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol o ran y nifer a fanteisiodd ar y lleoedd ar gyfer y digwyddiadau, gan gyrraedd y capasiti yn y ddau ddigwyddiad. Roedd tua 170 yn bresennol yn y digwyddiad yn ne Cymru a 90 yn bresennol yng ngogledd Cymru.  Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan:

- AGGCC
- Anabledd Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cartrefi Cymru
- CEM Abertawe
- CLILC
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Cynghrair Henoed Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Estyn Llaw
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Gwarchodol a Chadw G4S
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol dros Gymru
- Hafal
- Headway
- Heddlu De Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

- NOMS Cymru
- Panel Cynghori ar Ddiogelu
- Plant yng Nghymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- RNIB Cymru
- Sefydliad Rowan
- Shine Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob un o'r Rhannau o'r Ddeddf yr ymgynghorwyd arni o dan Gyfres 1. Roedd cynnwys y gweithdai hyn wedi ei deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp wrth wraidd pob gweithdy.

Cafodd y sylwadau a'r canlyniadau o'r digwyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion ysgrifenedig ffurfiol er mwyn llywio'r rheoliadau terfynol, y cod(au) ymarfer ac, mewn perthynas â Rhan 7, canllawiau statudol

Cafwyd cyfanswm o 77 o ymatebion. Roedd rhai ymatebion a gafwyd yn naratif yn unig ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o'r ymatebion ticio blwch. Mae'r cyfan wedi ei ystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Atodir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn Adran 2.

## Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r ymgynghoriad ar y rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf a'u gosod yn cael ei gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r gyfres gyntaf. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad o fis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ym mis Ebrill 2016.

## Y dystiolaeth ar gyfer newid

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy.
Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion[a], a'n Hadolygiad o Ddiogelu[b]. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn ein hachos dros newid.

[a] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm
[b] http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?skip=1&lang=cy

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, sef datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi cael ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[c], prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi ystyried darpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail iddynt, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau, y canllawiau statudol a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau drafft, y canllawiau statudol a'r cod ymarfer yr ymgynghorwyd arnynt.

**Y cynigion ar gyfer ymgynghori arnynt**

Cynigiwyd cryfhau'r trefniadau i blant mewn perygl drwy gyflwyno dyletswydd orfodol i roi gwybod am blant sydd mewn perygl neu yr amheuir eu bod mewn perygl, a thrwy sefydlu Byrddau Diogelu Plant ar batrwm cyflawni rhanbarthol y sector cyhoeddus.

Mae Rhan 7 hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i amddiffyn oedolion sy’n wynebu risg. Mae'r fframwaith newydd hwn yn cyflwyno dyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod lleol am oedolion sy’n wynebu risg; dyletswydd i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau o ran a yw oedolyn yn wynebu risg a phenderfynu ar y camau gweithredu i'w cymryd; a Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn newydd a fydd yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i eiddo i siarad ag oedolyn yn breifat, penderfynu a yw'r oedolyn yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd a phenderfynu ar y camau gweithredu i'w cymryd. Mae Rhan 7 hefyd yn darparu ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion newydd a sefydlir ar batrwm cyfochrog â'r Byrddau Diogelu Plant.

Bydd Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael ei greu i gynghori a chynorthwyo Byrddau Diogelu ac i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru er mwyn cryfhau diogelu yng Nghymru. Er nad yw canllawiau statudol yn ofynnol mewn perthynas â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, defnyddiwyd yr ymgynghoriad i wahodd rhanddeiliaid i ystyried sut y gallai'r

[c] http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy

Byrddau Diogelu gael eu cynorthwyo gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i arfer eu swyddogaeth statudol.

## Adran 2 - Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

**Dadansoddiad Llywodraeth Cymru**

Roedd cytundeb eang i'r cynigion mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion. Mae'r gefnogaeth hon yn adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed drwy'r Panel Cynghori ar Ddiogelu ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol. O ganlyniad cafodd y dull a gymerwyd gefnogaeth eang.

Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymatebion amlinellu rhai meysydd penodol i'w hystyried ymhellach ac mae'r rhain wedi eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a'r Panel Cynghori ar Ddiogelu.

Mae’r rhain yn cynnwys y categori o bersonau a all fod yn swyddogion awdurdodedig mewn perthynas â Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion; rhywfaint o awgrym y dylai'r canllawiau statudol ddarparu mwy o eglurhad ar arfer swyddogaethau gan Fyrddau; rhywfaint o bryder ynghylch y ffordd y gall adolygiadau lluosog neu ddigwyddiadau dysgu yn dilyn digwyddiadau difrifol weithredu ar yr un pryd; a rhywfaint o bryder ynghylch rhan y sector iechyd yn y broses.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau hyn am eu bod wedi darparu tystiolaeth i lywio'r broses o fireinio'r canllawiau statudol drafft i roi eglurhad ar nifer o'r pwyntiau hyn.

O ystyried y cytundeb eang i'n cynigion, gan mwyaf, nid oes unrhyw newidiadau wedi eu gwneud i'r rheoliadau drafft o ganlyniad i'r broses ymgynghori, gan adlewyrchu cyfranogiad blaenorol y rhanddeiliaid a'r ymarferwyr. Mae'r canllawiau statudol drafft wedi eu mireinio o ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd, ac yn benodol, trafodaeth bellach am y rhain yn y Panel Cynghori ar Ddiogelu.

Fel y nodwyd o dan Gwestiwn 10 isod cafodd Llywodraeth Cymru sylwadau cryf gan Lywodraeth y DU, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ac un o bartneriaid Bwrdd Diogelu statudol i beidio â rhagnodi lefel y cyfraniad mewn rheoliadau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi myfyrio ar y pwerau sydd ar gael iddynt sicrhau canlyniad cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir; tegwch, cysondeb, tryloywder a symlrwydd i sicrhau bod gan Fyrddau adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau craidd. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio ag arfer eu pwerau i wneud rheoliadau i ragnodi lefel y cyfraniadau ar hyn o bryd. Felly bydd Rheoliad 8 i Reoliadau drafft Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 fel yr ymgynghorwyd arnynt yn cael ei ddileu.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gofyn i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol adolygu effeithiolrwydd y canllawiau statudol o ran cyflawni eu canlyniadau a nodwyd, ar ôl cyfnod addas o weithredu. Ar sail y dystiolaeth honno, gan gynnwys a yw lefel y cyfraniadau'n briodol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr angen i arfer eu pwerau i wneud rheoliadau.

Wrth ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau unigol a holwyd yn yr ymgynghoriad yn Rhan 2, ceir dadansoddiadau ansoddol a meintiol o dan bob cwestiwn. Lle roedd cyfle ar gyfer amrywiaeth eang o atebion, mae dadansoddiad wedi'i gynnwys. Lle roedd cwestiynau naill ai'n fwy penodol neu'n gofyn am naratif, ni cheir gwybodaeth feintiol.

Yn ogystal â nodi'r themâu allweddol o'r ymgynghoriad, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi pa gamau sydd wedi eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwyntiau penodol. Lle mae rheoliadau a chanllawiau wedi eu diwygio a lle mae camau gweithredu ychwanegol wedi eu cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd, nodir hyn.

## Cwestiwn 1:

| | **1. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai rôl y swyddog awdurdodedig (a all wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn) gael ei gyfyngu i swyddog yr awdurdod lleol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 29 | 12 | 6 | 1 | 15 |

**Crynodeb**

Roedd y mwyafrif yn cytuno y dylai'r rolau gael eu cyflawni gan swyddogion awdurdodau lleol sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i benderfynu ar faterion o asesu a nodi cam-drin posibl.

Gofynnodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i Ymwelydd y Llys Gwarchod gael ei gynnwys yn y Canllawiau Statudol fel enghraifft o berson a bennwyd a all fynd gyda swyddog awdurdodedig. Gwnaeth eraill, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sylwadau y byddai cyfyngu'r rôl i swyddogion awdurdodau lleol yn sicrhau bod dull cyson a thrylwyr yn cael ei gymryd mewn perthynas a chymhwyso Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn.

Nododd rhai sylwadau y dylai rôl y swyddog awdurdodedig gael ei chyfyngu i weithwyr cymdeithasol neu un o weithwyr proffesiynol a reoleiddir yr awdurdod lleol.

Gofynnodd Is-Bwyllgor Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi am

fanylion ynglŷn â gweithredu'r broses Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn gyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru'n ar hyn o bryd yn datblygu'r gwaith hwn gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi eu bwriadu i'w defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai ymestyn categorïau personau y tu hwnt i swyddogion awdurdodau lleol yn y rheoliadau yn ddefnyddiol ar y cam hwn. Fodd bynnag, bydd y canllawiau statudol yn cael eu diwygio i gynnwys Ymwelydd y Llys Gwarchod fel person y gellir ei nodi gan y Gorchymyn fel rhywun a all fynd gyda swyddog awdurdodedig. Bydd ymestyn y categori o bersonau a all fod yn swyddog awdurdodedig yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad o'r darpariaethau ar ôl iddynt weithredu am gyfnod.

Mewn perthynas â chyfyngu ar rôl swyddog awdurdodedig i weithwyr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol a reoleiddir, mae'r rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i'r unigolyn feddu ar brofiad perthnasol a'i fod wedi cael hyfforddiant priodol. Mae hyn yn cael ei ategu gan amrywiaeth o sgiliau yn y canllawiau statudol sydd â chysylltiad clir â sgiliau'r gweithiwr cymdeithasol cymwys.

## Cwestiwn 2:

| | **2. I ba raddau rydych yn cytuno â'r partneriaid arweiniol a enwebwyd gan y Byrddau Diogelu ar gyfer pob Bwrdd Diogelu Plant a phob Bwrdd Diogelu Oedolion, fel y nodir yn adran 10.1?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 30 | 16 | 1 | 1 | 14 |

**Crynodeb**

Mynegwyd cefnogaeth gref iawn ar gyfer y partneriaid arweiniol a enwebwyd ar gyfer pob ardal Bwrdd, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Rôl y partner arweiniol yw sefydlu'r Bwrdd Diogelu. Ar ôl ei sefydlu'n ffurfiol, mae Partneriaid Byrddau Diogelu yn arfer cyfrifoldeb a rennir i sicrhau yn gasgliadol ac ar y cyd bod y Bwrdd yn cyflawni ei amcanion. Mynegodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot bryderon ynghylch sut y byddai rhanbartholi ac ad-drefnu llywodraeth yn effeithio ar Ddiogelu, os nad yw hyn yn dilyn patrwm y Bwrdd Iechyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Byrddau Diogelu eisoes wedi sefydlu eu hunain yn ôl patrwm darparu'r gwasanaethau cyhoeddus ymhell cyn gweithredu ffurfiol. Cafodd y Patrwm

Cydweithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ei gytuno gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2011. Ystyrir bod y patrwm yn darparu fframwaith i wasanaethau cyhoeddus ddatblygu dulliau cyson o ran trefniadau cydweithio newydd; eglurder ar sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus gydweithio; mwy o sefydlogrwydd a llai o gymhlethdod.

Y Patrwm Cydweithredu yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r angen am arweinyddiaeth ar yr agwedd hon ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r ethos a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru, gan ganolbwyntio ar bobl, lleoedd a dyfodol. Gwnaeth trafodaethau blaenorol â phartneriaid cyflawni ar draws sectorau yng Nghymru amlygu cymhlethdodau darparu gwasanaethau lle roedd patrymau gwahanol ar gyfer gwahanol feysydd polisi a sefydliadau. Nid yw'r patrwm yn ei gwneud yn ofynnol dileu'r trefniadau cydweithio presennol sy'n effeithiol. Ceir disgwyliad a rennir y bydd cydweithio ar y cyd yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r patrwm hwn.

Byddwn yn datblygu'r agwedd hon ar y rheoliadau a'r canllawiau fel y'u drafftiwyd.

## Cwestiwn 3:

| | **3. I ba raddau rydych yn cytuno bod swyddogaethau Bwrdd Diogelu yn cyd-fynd â'u prif flaenoriaethau?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 33 | 13 | 0 | 1 | 16 |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf iawn bod y swyddogaethau fel y'u nodwyd yn yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol ac yn briodol. Amlygodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf, bwysigrwydd atgyfnerthu'r agendâu amddiffyn ac atal. Awgrymodd un sylw, yn deillio o drafodaeth ymgynghori â Grŵp Cydlynwyr Amddiffyn Oedolion Cymru (WAPCG) fod angen i'r canllawiau gau'r bwlch rhwng diben cyffredinol y Bwrdd Diogelu, sy'n lefel uchel a chyda manylion cyfyngedig ar atal, a'r swyddogaethau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd canllawiau statudol yn egluro bod canolbwynt deublyg i'r Byrddau Diogelu. Mae'n golygu amddiffyn plant ac oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt rhag cael eu cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac atal plant ac oedolion rhag perygl o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau'r Byrddau Diogelu pan fyddant yn ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol, ac yn

adolygu eu perfformiad.

Bydd canllawiau'n darparu rhagor o fanylion am arfer swyddogaethau gan fyrddau diogelu, gan gynnwys cyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau; cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin, esgeulustod a niwed; adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu lleol; cynnal adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau eraill, a monitro eu hargymhellion; adolygu perfformiad y Bwrdd; lledaenu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu; ymchwilio i amddiffyn ac atal niwed; adolygu anghenion hyfforddiant a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu; cydweithredu â Byrddau eraill a cheisio cyngor a gwybodaeth arbenigol.

## Cwestiwn 4:

| | **4. I ba raddau rydych yn cytuno â'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiad cryno ac estynedig o Ymarfer Oedolion?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 34 | 9 | 1 | 1 | 17 |

**Crynodeb**

Mynegwyd cytundeb cryf iawn o blaid rhoi Adolygiadau Ymarfer Oedolion ar sail statudol, ac i'r byrddau diogelu gael disgresiwn i ddefnyddio fformat priodol i ddysgu o ddigwyddiadau lle nad yw'r achosion yn bodloni'r meini prawf a ragnodwyd.

Cwestiynodd ymgynghoriaeth Mick Collins yr angen am system ddwy haen o adolygiadau (cryno ac estynedig), a chafwyd cais am eglurder o ran pa adolygiad ddylai gael blaenoriaeth lle mae adolygiadau ac ymchwiliadau lluosog yn cael eu cynnal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r broses Adolygiad Ymarfer Oedolion yn adeiladu ar y broses Adolygiad Ymarfer Plant sydd wedi ei gweithredu ers gwanwyn 2013 ac sydd wedi bod yn destun gwerthuso annibynnol ffurfiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau'r eglurder cryfaf posibl lle mae dyletswyddau deddfwriaethol gwahanol yn effeithio ar arfer swyddogaethau asiantaethau i ymchwilio i achosion o farwolaeth neu amharu difrifol i ddatblygiad unigolion a dysgu o hyn.

## Cwestiwn 5:

| | **5. I ba raddau rydych yn cytuno bod y canllawiau yn glir am gyfrifoldebau Byrddau Diogelu i sicrhau aelodaeth briodol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 28 | 12 | 9 | 0 | 13 |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf i'r trefniadau arfaethedig o ran aelodaeth o fyrddau diogelu. Codwyd cwestiwn am rôl aelodaeth bosibl cyrff rheoleiddio ac a fyddent yn fwy addas ar lefel weithredol is. Mynegwyd rhywfaint o bryder am rôl Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fel aelodau bwrdd posibl heb wneud cyfraniad ariannol.

Croesawyd aelodaeth i sefydliadau'r Trydydd Sector, a hefyd yr aelodaeth bwrdd arfaethedig a ystyriwyd ei bod ar lefel briodol i allu dylanwadu ar newid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae lefel yr aelodaeth o bob un o'r Partneriaid Diogelu statudol yn adeiladu ar arferion effeithiol Byrddau Diogelu Lleol statudol a Byrddau Diogelu Oedolion anstatudol. Un rôl allweddol y byddant yn ei chynnal fydd adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd wrth gyflawni ei flaenoriaethau a nodwyd a chyflwyno adroddiadau ar hyn.

Mae'r Ddeddf a'r Canllawiau Statudol yn nodi ac yn adlewyrchu'n glir yr angen i Fyrddau Diogelu gynnwys cynrychiolaeth gan y rhai sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â phlant ac oedolion. Byddwn yn mireinio'r canllawiau i gynnwys cyfeiriadau cliriach at sefydliadau a chyrff yng Nghymru sy'n ymgymryd â swyddogaethau o'r fath.

Mae'r Byrddau wedi eu sefydlu ac maent eisoes yn arfer eu swyddogaethau cyn gweithredu. Ni cheir adroddiadau o bryderon am effeithiolrwydd pob aelod. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Mae gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a fydd yn cael ei sefydlu cyn bo hir, rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu cyngor a chymorth i'r byrddau diogelu ac i adrodd ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu i Weinidogion.

## Cwestiwn 6:

| | 6. I ba raddau rydych yn cytuno bod y canllawiau yn glir am gyfrifoldebau Byrddau Diogelu i sicrhau ymgysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n ymwneud â diogelu yn ardal y Bwrdd? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 26 | 18 | 5 | 0 | 13 |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf ar gyfer y gofyniad i Fyrddau feithrin ymgysylltu drwy rwydweithiau a fforymau presennol, ac ymgysylltu â sefydliadau ac unigolion perthnasol, drwy'r defnydd o 'grwpiau arbenigol'. Roedd rhai, gan gynnwys Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, wedi mynegi pryder y gallai'r canllawiau fod yn gliriach o ran awgrymu cyrff eraill y gellid eu cynnwys fel aelodau Bwrdd. Roedd Coleg Brenhinol y Nyrsys yn teimlo y gallai'r broses ymgynghori fod wedi gwneud mwy i ymgysylltu â sefydliadau iechyd a gweithwyr proffesiynol iechyd ac o ganlyniad mynegwyd pryder o ran a fydd byrddau diogelu yn cymryd y camau angenrheidiol i ymgysylltu'n ddigonol â'r partneriaid hyn.

Cwestiynodd un ymatebydd a fyddai materion lleol yn cael digon o ystyriaeth lle roedd ardaloedd bwrdd mawr ag awdurdodau lleol lluosog.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Ddeddf a'r Canllawiau yn nodi'n glir yr angen i gynnwys cynrychiolaeth gan y rhai sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â phlant ac oedolion yn ardal y Bwrdd. Byddwn yn mireinio'r canllawiau i gynnwys cyfeiriadau cliriach at sefydliadau a chyrff yng Nghymru sy'n ymgymryd â swyddogaethau o'r fath.

Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG wedi eu nodi ar wyneb y Ddeddf fel Aelodau o'r Bwrdd Diogelu. Yn hynny o beth mae ganddynt gyfrifoldeb unigol ac ar y cyd i sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu ac i nodi eu blaenoriaethau ac adrodd arnynt drwy'r cylch cynllunio ac adrodd blynyddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol cael ymgysylltiad a chyfranogiad amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol a sefydliadau, er enghraifft drwy is-grwpiau neu weithgorau a sefydlwyd gan y Bwrdd Diogelu.

## Cwestiwn 7:

| | 7. I ba raddau rydych yn cytuno bod y rheoliadau a'r canllawiau yn galluogi defnyddwyr i gyfranogi'n effeithiol yng ngwaith Byrddau Diogelu? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |

| Cyfanswm - | 19 | 20 | 6 | 1 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|

**Crynodeb**

Mynegwyd cytundeb cyffredinol i'r cynigion. Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu, y gall fod angen cymorth ar Fyrddau i sicrhau bod cyfranogi effeithiol yn digwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Ddeddf a'r Canllawiau yn nodi'n glir yr angen i gynnwys cynrychiolaeth gan y rhai sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â phlant ac oedolion yn ardal y Bwrdd.

Mae'r Canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau ystyried ym mhob cyfarfod y cyfle i ddefnyddwyr ymgysylltu â darnau penodol o waith a hefyd effeithiolrwydd y cyfranogi sydd wedi digwydd.

Mae'r canllawiau'n amlygu amrywiaeth o gyfleoedd i ddefnyddwyr ymgysylltu a chymryd rhan gan gynnwys rôl byrddau diogelu iau, hyrwyddwyr ymgysylltu a hyrwyddwyr pobl ifanc wrth hwyluso trafodaeth rhwng Byrddau ac unigolion. Cafodd y canllawiau eu cryfhau ymhellach i amlygu rôl fforymau ieuenctid a chynghorau ysgolion a'r ystyriaeth arbennig sydd ei hangen ar gyfer y rhai ag anableddau a gwendidau penodol eraill.

Bydd gan y Bwrdd Cenedlaethol rôl i'w chwarae o ran adrodd ynghylch a yw cyfranogi a llais y defnyddiwr yn effeithiol.

## Cwestiwn 8:

| | 8. I ba raddau rydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig y cynllun blynyddol? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 28 | 14 | 5 | 1 | 15 |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf i'r cynigion. O blith y rhai a oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno, nid oes thema gyffredinol yn dod i'r amlwg. Awgrymodd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus y dylai cynlluniau blynyddol gynnwys manylion penodol mewn perthynas â phartneriaid a sefydliadau i gydweithio â hwy, ac y dylai'r cynllun blynyddol amlinellu'r dulliau adrodd ar gyfer canlyniadau achosion. Er bod Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen yn cytuno â'r cynnig ac yn croesawu cynnwys atebolrwydd, cyfranogiad ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, cwestiynwyd a ellid cyfuno'r cynllun blynyddol a'r

adroddiad blynyddol yn un ddogfen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r gofyniad i lunio cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol wedi ei nodi yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ni fwriedir y bydd y gwaith o lunio'r adroddiad blynyddol yn rhoi baich gormodol ar y Bwrdd Diogelu. Ni chaiff hyd y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol ei ragnodi.

Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi cydweithio â phersonau neu gyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch sy'n ymwneud ag amcanion y bwrdd.

## Cwestiwn 9:

| | **9. I ba raddau rydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig yr adroddiad blynyddol a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol)?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 24 | 16 | 5 | 1 | 15 |

**Crynodeb**

Mynegwyd cytundeb cyffredinol i'r cynigion. Cafwyd croeso cynnes i'r atebolrwydd a'r cyfranogiad y darperir ar eu cyfer. O blith y rhai a oedd yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno, ni ddaeth thema gyffredinol i'r amlwg. Er bod Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen yn cytuno â'r cynnig ac yn croesawu cynnwys atebolrwydd, cyfranogiad ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, cwestiynwyd a ellid cyfuno'r cynllun blynyddol a'r adroddiad blynyddol yn un ddogfen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r gofyniad i lunio cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol wedi ei nodi yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Ddeddf a'r Canllawiau yn nodi'n glir yr angen i gynnwys cynrychiolaeth gan y rhai sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â phlant ac oedolion yn ardal y Bwrdd ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yng nghynnwys arfaethedig adroddiadau blynyddol.

## Cwestiwn 10:

| | **10. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai cyfraniadau ariannol gael eu rhagnodi ar gyfer pob partner Bwrdd Diogelu?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |

| Cyfanswm - | 27 | 14 | 0 | 2 | 19 |
|---|---|---|---|---|---|

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf i'r sicrwydd a'r tegwch a fyddai'n cael eu darparu. Awgrymodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf y dylai'r chwe phartner statudol wneud cyfraniad cyfartal i'r gyllideb a chwestiynwyd pwy fyddai'n cymrodeddu ac yn gorfodi cydymffurfio mewn achos o anghytuno.

Roedd Prif Gwnstabliaid, er eu bod yn cytuno â'r egwyddor y dylai'r heddlu fod yn aelodau o Fyrddau Diogelu ac y dylent gyfrannu'n ariannol at eu rhedeg; ac yn cytuno bod y fformiwla a nodir yn y Rheoliadau drafft yn rhoi cydbwysedd teg o gyfraniadau ymhlith y partneriaid, yn teimlo ei bod yn amhriodol pennu'r fformiwla yn y Rheoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd ein cynigion i ddefnyddio'r rheoliadau a'r Canllawiau Statudol i nodi lefel y cyfraniad ariannol gan bob partner Bwrdd Diogelu gytundeb cryf.

Cafodd Llywodraeth Cymru sylwadau gan Lywodraeth y DU, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac un o bartneriaid Bwrdd Diogelu statudol i beidio â rhagnodi lefel y cyfraniad mewn rheoliadau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi myfyrio ar y pwerau sydd ar gael iddynt sicrhau eu canlyniadau datganedig o gyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir; tegwch, cysondeb, tryloywder a symlrwydd i sicrhau bod gan Fyrddau adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau craidd. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio ag arfer eu pwerau i wneud rheoliadau i ragnodi lefel y cyfraniadau ar hyn o bryd. Felly bydd Rheoliad 8 i Reoliadau drafft Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 fel yr ymgynghorwyd arnynt yn cael ei ddileu.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gofyn i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol adolygu effeithiolrwydd y Canllawiau Statudol o ran cyflawni eu canlyniadau a nodwyd, ar ôl cyfnod addas o weithredu. Ar sail y dystiolaeth honno, gan gynnwys a yw lefelau'r cyfraniad yn briodol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr angen i arfer eu pwerau i wneud rheoliadau.

## Cwestiwn 11:

| | **11. I ba raddau rydych yn cytuno bod y cynigion ar gyfer sicrhau cyfraniadau ariannol i'r Bwrdd Diogelu yn nodi trefniadau teg a chyfartal?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |

| Cyfanswm - | 15 | 20 | 6 | 1 | 20 |
|---|---|---|---|---|---|

**Crynodeb**

Mynegwyd cytundeb cryf bod y trefniadau arfaethedig yn deg a chyfartal. Awgrymodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf y dylai'r chwe phartner statudol wneud cyfraniad cyfartal i'r gyllideb a chwestiynwyd pwy fyddai'n cymrodeddu ac yn gorfodi cydymffurfio mewn achos o anghytuno.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd ein cynigion i ddefnyddio'r rheoliadau a'r Canllawiau Statudol i nodi lefel y cyfraniad ariannol gan bob partner Bwrdd Diogelu gytundeb cryf.

Cafodd Llywodraeth Cymru sylwadau gan Lywodraeth y DU, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac un o bartneriaid Bwrdd Diogelu statudol i beidio â rhagnodi lefel y cyfraniad mewn rheoliadau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi myfyrio ar y pwerau sydd ar gael iddynt sicrhau eu canlyniadau datganedig o gyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir; tegwch, cysondeb, tryloywder a symlrwydd i sicrhau bod gan Fyrddau adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau craidd. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio ag arfer eu pwerau i wneud rheoliadau i ragnodi lefel y cyfraniadau ar hyn o bryd. Felly bydd Rheoliad 8 i Reoliadau drafft Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 yn cael ei ddileu.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gofyn i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol adolygu effeithiolrwydd y Canllawiau Statudol o ran cyflawni eu canlyniadau a nodwyd, ar ôl cyfnod addas o weithredu. Ar sail y dystiolaeth honno, gan gynnwys a yw lefelau'r cyfraniad yn briodol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr angen i arfer eu pwerau i wneud rheoliadau.

## Cwestiwn 12:

| Beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer blwyddyn gyntaf y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol? |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Cafwyd awgrymiadau'n ymwneud â nifer o themâu. Roedd y rhain yn cynnwys (yn nhrefn eu poblogrwydd):<br><br>• Sicrhau bod pob Bwrdd rhanbarthol yn ei le a chael cyfres glir o ddangosyddion perfformiad i fesur eu heffeithiolrwydd (6)<br><br>• Sefydlu perthnasoedd gwaith da a llinellau cyfathrebu gyda'r holl Fyrddau rhanbarthol (3)<br><br>• Strategaeth gyfathrebu/lledaenu unrhyw wersi a ddysgwyd o adolygiadau ac ati sy'n berthnasol i bob rhan o Gymru (3)<br><br>• Nodi a yw'n realistic cael un Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i gwmpasu diogelu oedolion a phlant (1)<br><br>• Nodi'r llwyth gwaith helaeth (ôl-groniad) i fynd i'r afael ag ef ym maes diogelu oedolion a nodi blaenoriaethau (1)<br><br>• Yn sgîl yr uchod, penderfynu a yw maint a chyfansoddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn gymesur â'r tasgau (1)<br><br>• Data perfformiad, storio gwybodaeth am dramgwyddwyr honedig (1)<br><br>• Ystyried adroddiadau blynyddol i lywio arfer da (1)<br><br>• Cydlynu ymatebion i unrhyw bryderon diogelu lefel uchel sydd â goblygiadau i Fyrddau ledled Cymru e.e. ymchwiliad amlasiantaeth annibynnol Rotherham i gamfanteisio'n rhywiol ar blant (1).<br><br>• Darparu cyngor a chymorth i sicrhau bod Byrddau Oedolion a Phlant yn gweithio ar y cyd ac yn effeithlon lle y bo'n briodol (1)<br><br>• Datblygu cynllun strategol clir sy'n nodi ei swyddogaethau, ei aelodaeth a chymorth i'r agenda gydweithio (1)<br><br>• Sut y gall dinasyddion gymryd rhan, a rhoi adborth ar eu profiadau o'r broses ddiogelu (1)<br><br>• Dyfeisio fframwaith sicrhau ansawdd (1)<br><br>• Strategaeth y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth oedolion am ddiogelu eu |

hunain a'r hyn y dylent ei wneud os ydynt yn credu eu bod wedi eu cam-drin neu eu hesgeuluso (1)

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau a gafwyd a bydd y themâu hyn yn cael eu hystyried gan swyddogion gyda golwg ar lywio cylch gwaith y Bwrdd Cenedlaethol sydd newydd ei sefydlu.

## Cwestiwn 13:

**Sut y gellir datblygu trefniadau ar gyfer adolygu polisi a gweithdrefnau diogelu cenedlaethol o dan gyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu?**

**Crynodeb**

Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Grŵp Cydlynwyr Amddiffyn Oedolion Cymru, y dylai'r dasg o ddyfeisio ac adolygu'r gweithdrefnau amddiffyn oedolion aros gyda Byrddau Diogelu ac ymarferwyr sy'n eu gweithredu. Gwnaeth eraill, gan gynnwys Tai a Gofal Cymdeithasol Torfaen, awgrymu y dylai'r Bwrdd Cenedlaethol adolygu'r polisi a gweithdrefn diogelu a lledaenu canfyddiadau i Fyrddau Diogelu. Nodwyd bod cyfathrebu rhwng Byrddau yn hanfodol ac y gellid penodi cydlynydd cyswllt i gyflawni hyn. Awgrymodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y dylai'r Bwrdd Cenedlaethol gael rôl allweddol o ran cynghori ar bolisi a gweithdrefnau ac y dylai hefyd weithredu fel grŵp craffu neu herio ar gyfer polisïau a gweithdrefnau newydd.

Awgrymodd ymgynghoriaeth Mick Collins fod y model a ddefnyddir ar gyfer drafftio'r Polisi a Gweithdrefnau Amddifyn Oedolion presennol yn effeithiol ac y dylid ei ddefnyddio eto gyda chyllid ar gael i brynu cymorth ac arbenigedd ysgrifenyddol i mewn lle bo angen.

Awgrymwyd hefyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod angen arweinyddiaeth effeithiol i gydlynu'r adolygiad o bolisïau diogelu plant ac oedolion; y bydd sicrhau cynrychiolaeth strategol a gweithredol briodol gan bob asiantaeth o bob rhanbarth yn hanfodol i ymgysylltu a pherchnogaeth lawn; y dylai pob asiantaeth ymrwymo'r adnoddau priodol i arwain diwygio'r dogfennau hyn, ac na ellir gorbwysleisio cyfraniad iechyd a rhaid adlewyrchu hyn mewn dogfennau terfynol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd gan y Bwrdd Cenedlaethol, ar ôl ei sefydlu, brif rôl o ddarparu cyngor a chymorth i Fyrddau Diogelu ac ar gyfer gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu cymorth clir a diamwys i fanteision gweithdrefnau cenedlaethol. Mae'r Bwrdd hefyd yn debygol o chwarae rôl wrth adolygu cymhwyso ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau ac o ran llywio diwygiadau yn y dyfodol.

## Cwestiwn 14:

**A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

**Crynodeb**

Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod yn rhaid cymhwyso egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
Cytunodd Coleg Brenhinol y Nyrsys y bydd y cynigion, os cânt eu gweithredu'n effeithiol, yn cael effaith gadarnhaol gan eu bod wedi eu bwriadu'n benodol i amddifyn y mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio gwasanaethau a all ddiwallu anghenion drwy'r Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O dan delerau Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru cafodd asesiad o effeithiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei gynnal yn ystod proses y Bil. Ar y pryd, nododd yr asesiad fod effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn annhebygol a bod y Ddeddf wedi ei chynllunio i greu system decach a mwy cyfartal i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datblygu llawer o gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: rhaid i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

Mae'r rheoliadau, y Codau Ymarfer a'r Canllawiau Statudol yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd gyffredinol yn 6(2)(c) y dylai unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn ac mae hynny'n cynnwys iaith.

Mae holl ddarpariaethau'r rheoliadau sy'n ymwneud â phlant wedi eu bwriadu i wella'r canlyniadau y cyfeirir atynt yn erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud a□ phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn
Erthygl 4 - Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant
Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu’n iach

Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i’w barn gael ei hystyried.
Erthygl 19 - Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a’u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy’n edrych ar eu ho□l.
Erthygl 34 - Dylai’r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.
Erthygl 39 - Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

## Cwestiwn 15:

**A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

**Crynodeb**

Fel yng nghwestiwn 14, roedd Coleg Brenhinol y Nyrsys, er eu bod yn awgrymu y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol, am dynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio gwasanaethau a all ddiwallu anghenion drwy'r Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r rheoliadau, y Codau Ymarfer a'r Canllawiau Statudol i gyd yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd gyffredinol yn 6(2)(c) y dylai unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn ac mae hynny'n cynnwys iaith.

## Cwestiwn 16:

**Bydd ailgydbwyso’r system gofal a chymorth i gyflawni’r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw’r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?**

**Crynodeb**

Awgrymodd Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf y byddai fframwaith cymwyseddau Cyngor Gofal Cymru yn cynorthwyo'r broses o hyfforddi gweithwyr proffesiynol. Ymatebodd Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen gan ddweud mai camau gweithredu allweddol fyddai perthnasoedd agosach a mwy effeithiol â'r Trydydd Sector, gan wella gwasanaethau ataliol drwy nodi cyllid ychwanegol, mwy o ganolbwynt ar gydnerthu cymunedol, mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb amlasiantaeth i ddiogelu, ac angen i ddeall sut y gall diogelu i blant ac oedolion gydweithio.

Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fod angen i sefydliadau gael cynlluniau clir sy'n amlinellu eu gofynion i sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu bodloni.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu at weithredu. Bydd y grant Trawsnewid yn cynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid dros y flwyddyn nesaf wrth symud arfer ac ati a bydd y Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cael ei dargedu at hyfforddi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Disgwylir y bydd y gostyngiad cyffredinol yn nifer y byrddau diogelu, a'r gofynion a roddir ar fyrddau diogelu gan y Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) yn darparu fframwaith cyson a chydlynol ar gyfer Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion o ran sut y mae'n rhaid iddynt fodloni eu hamcanion o dan y Ddeddf i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod, ac i hwyluso cydweithredu rhwng byrddau diogelu, a rhwng byrddau diogelu a'r Bwrdd Cenedlaethol

## Cwestiwn 17:

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.** |
| --- |
| **Crynodeb**<br><br>Awgrymodd y Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu fod yn rhaid amddiffyn 'chwythwyr chwiban' i sicrhau bod pobl yn rhoi gwybod am unrhyw amheuon o ran diogelu ac y dylid canolbwyntio ar rannu a dysgu o arfer da ac achosion lle aeth pethau o chwith. Awgrymodd Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen y byddai angen cyfeiriad cywir at ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y Canllawiau i sicrhau bod oedolion â galluedd yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau annoeth.<br>Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o'r farn mai peth cadarnhaol iawn oedd rhoi deddfwriaeth yn ei lle i amddiffyn oedolion agored i niwed.<br><br>Croesawodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gyflwyno Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, ond mynegodd rywfaint o bryder bod y pŵer i symud person i fan diogel, a geir yn adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yn mynd i gael ei ddiddymu, gan awgrymu y gallai hyn roi pobl hŷn mewn perygl.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br><br>Bydd Canllawiau Statudol yn egluro mai diben Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant yw rhannu pwyntiau dysgu ac arfer da. Bydd creu Byrddau Diogelu yn seiliedig ar y patrwm darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn hwyluso rhannu dysgu o'r fath. Bydd y Canllawiau Statudol yn tynnu sylw ymarferwyr at y ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus o dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Mae Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau i ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r rhain; rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn; a phwysigrwydd dechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn.<br><br>O ran diddymu adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pwerau presennol yr heddlu o dan adran 17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i fynd i mewn i eiddo at ddibenion achub bywyd neu i atal difrod difrifol i eiddo a phwerau o dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, Deddf Twyll 2006 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu pwerau helaeth a digonol yn hyn o beth. Mae'r diddymu hwn yn cael ei gyflawni gan y Ddeddf ac nid yw o fewn |

| |
|---|
| cwmpas yr ymgynghoriad hwn. |

## Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol Ydy / Nac Ydy | | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | ✔ | Caroline Gardner | Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus |
| 2. | | ✔ | Mick Collins | Mick Collins Consultancy |
| 3. | | ✔ | Rhys Jones | Llywodraeth Cymru |
| 4. | | ✔ | Andrea Giordano | Llywodraeth Cymru |
| 5. | | ✔ | Ruth Northway | Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu |
| 6. | | ✔ | Helen Evans | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 7. | | ✔ | Lisa Turnbull | Coleg Brenhinol y Nyrsys |
| 8. | | ✔ | Mel Roach | Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf |
| 9. | ✔ | | | |
| 10. | | ✔ | Gareth Cooke | Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen |
| 11. | | ✔ | Catherine Roberts | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| 12. | | ✔ | David Morgan | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 13. | | ✔ | Carol Floris | Voices from Care |
| 14. | | ✔ | Caroline Oakley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 15. | ✔ | | | |
| 16. | | ✔ | Dr Rosanne Palmer | Age Cymru |
| 17. | ✔ | | | |
| 18. | ✔ | | | |
| 19. | ✔ | | | |
| 20. | ✔ | | | |
| 21. | ✔ | | | |
| 22. | ✔ | | | |
| 23. | ✔ | | | |
| 24. | | ✔ | Nigel Champ | Llywodraeth Cymru |
| 25. | | ✔ | David Williams | Torfaen |
| 26. | ✔ | | | |
| 27. | | ✔ | Parry Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| 28. | | ✔ | Liz Blazey | Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| 29. | | ✔ | Lin Slater | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 30. | | ✔ | Philip Diamond | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf |
| 31. | | ✔ | Debbie Powell | GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PARTNERIAETH – Y DE-DDWYRAIN (SCiPse) |
| 32. | | ✔ | Andy Senior | Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg |
| 33. | | ✔ | Caroline Oakley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 34. | | ✔ | Aideen Naughton | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **35.** | | ✔ | Deborah Driffield | Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe |
| **36.** | ✔ | | | |
| **37.** | | ✔ | Ruth Crowder | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| **38.** | | ✔ | Simon Burch | Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru |
| **39.** | | ✔ | Louise Williams | Cyngor Gofal Cymru |
| **40.** | | ✔ | Ruth Coombs | Mind Cymru |
| **41.** | | ✔ | Melanie Roach | Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Cwm Taf. |
| **42.** | | ✔ | Dr Sam Clutton | Barnardo's Cymru |
| **43.** | | ✔ | Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint |
| **44.** | | ✔ | Judith Brooks | Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **45.** | | ✔ | Nicola Evans | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **46.** | | ✔ | Bethan Jones Edwards | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru |
| **47.** | | ✔ | Dusty Kennedy | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| **48.** | | ✔ | Phil Evans | Cyngor Bro Morgannwg |
| **49.** | | ✔ | Jenny Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **50.** | | ✔ | Keith Towler | Comisiynydd Plant Cymru |
| **51.** | | ✔ | Amy Meredith-Davies | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe |
| **52.** | | ✔ | Alice Southern | Cymdeithas Alzheimer's |
| **53.** | | ✔ | Giovanni Isingrini | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **54.** | | ✔ | Steve Thomas | CLILC |
| **55.** | | ✔ | Deborah Davies | Torfaen |
| **56.** | | ✔ | Mary Wimbury | Fforwm Gofal Cymru |
| **57.** | | ✔ | Cecile Gwilym | NSPCC Cymru |
| **58.** | | ✔ | Rodney Berman | BMA Cymru Wales |
| **59.** | | ✔ | Tony Lobl | Pwyllgor Gwyddoniaeth Gristnogol ar Gyhoeddi |
| **60.** | | ✔ | C Phillips | CPhillipsassociates |
| **61.** | | ✔ | Dr Edwin Jones | Is-grŵp y Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu |
| **62.** | | ✔ | Martyn Palfreman | CYDWEITHFA IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU |
| **63.** | | ✔ | Gill Paul | Cyngor Gwynedd |
| **64.** | | ✔ | Robin Moulster | BASW Cymru |
| **65.** | | ✔ | Ian Bottrill | Panel Cynghori ar Ddiogelu |
| **66.** | | ✔ | Mair Kromei | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **67.** | | ✔ | Liz Blazey | CYSUR |
| **68.** | | ✔ | Sian Walker/Tony Young | Cyngor Dinas Caerdydd |
| **69.** | | ✔ | | Panel Cenedlaethol Dinasyddion Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **70.** | | ✔ | Alun Thomas | Swyddog Cyswllt yr Heddlu, ar ran Prif Gwnstabliaid yng Nghymru |
| **71.** | | ✔ | | Voices from Care |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **72.** | | ✔ | Roger Bishop | Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan |
| **73.** | | ✔ | Marshall Phillips | Is-Bwyllgor Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi |
| **74.** | | ✔ | Bobby Bolt | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **75.** | | ✔ | Sara Harvey | Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| **76.** | | ✔ | Panel Cynghori ar Ddiogelu | Ymghynghoriad â Chadeiryddion Byrddau Diogelu |
| **77.** | | ✔ | Anselm Benedict | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| **78.** | | ✔ | | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |